# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-02-07)

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 12 Gorffennaf 2007**
**Amser y cyfarfod: 9.00am - 9.05am**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru Alun Ffred Jones, Arfon Darren Millar, Gorllewin Clwyd Karen Sinclair, De Clwyd Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc Claire Griffiths, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### Eitem 2: Cynnig i gytuno ar bwnc a chynllun prosiect ar gyfer ymchwiliad craffu cyntaf y Pwyllgor

2.1 Dywedodd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi derbyn papur yn awgrymu bod y Pwyllgor yn cynnal ei adolygiad cyntaf ym maes "lleihau gollyngiadau carbon yng Nghymru." Cytunodd yr Aelodau i ymgymryd â'r adolygiad hwn a nodwyd y byddai astudiaeth gwmpasu'n cael ei chyflawni dros yr haf.

### Eitem 3: Cynnig i ddiwygio aelodaeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

3.1 Cynigiodd Alun Davies fod Mick Bates yn dod yn Aelod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Cytunwyd ar hyn. **Cynnig:** Cynnig i sefydlu Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Cylch gwaith yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yw craffu ar y meysydd hynny y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gyfrifol amdanynt ac y mae'r is-bwyllgor yn credu eu bod yn effeithio ar ddatblygu gwledig. Bydd yr is-bwyllgor yn para cyhyd â'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, yn amodol ar adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd o waith a chylch gwaith yr is-bwyllgor. Dyma Aelodau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig: Alun Davies AC Elin Jones AC Brynle Williams AC Mae Rheol Sefydlog 10.17 yn datgan bod is-bwyllgor yn cael ei reoleiddio gan yr un Rheolau Sefydlog â'r pwyllgor y mae'n is-bwyllgor iddo. Felly, bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn gyhoeddus (heblaw pan fo'r pwyllgor yn penderfynu yn ystod sesiwn ffurfiol ei fod am gyfarfod yn breifat). Bydd unrhyw adroddiad a baratoir gan yr is-bwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w gymeradwyo, ac os yw'n briodol, bydd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad.